GREEN GEN CYMRU

# Protocol Bioddiogelwch ar gyfer Gweithgareddau Arolygu

Mawrth 2026

POWERING
A POSITIVE
ENERGY FUTURE
FOR WALES

greengencymru.com

# TABL CYNNWYS


1.0 Why Biosecurity is Important ....................................................................................... 3

2.0 How Disease Spreads (Key Transmission Pathways) ....................................................... 3

3.0 Requirements for Suppliers (Surveyors & Contractors) ..................................................... 4

3.1 Pre-Visit Requirements (Planning & Due Diligence)................................................... 4

3.2 Mandatory Equipment (All Visits)................................................................................ 4

4.0 On-site Biosecurity Requirements ..................................................................................... 4

4.1 Clothing, Equipment & Vehicles .......................................................................................... 4

4.2 Disinfection Procedures ...................................................................................................... 5

4.3 During Surveys.................................................................................................................... 5

4.4 Post-Visit Actions ................................................................................................................. 6

5.0 Compliance & Reporting....................................................................................................... 6

## 1.0 Pam mae Bioddiogelwch yn Bwysig

Mae bioddiogelwch yn cyfeirio at y mesurau ymarferol sy'n cael eu cymryd i atal a chyfyngu ar ledaeniad clefydau heintus rhwng ffermydd, anifeiliaid a lleoliadau.

Yng nghyd-destun gwaith arolygu:

- Dydy clefydau heintus ddim bob amser yn weladwy mewn anifeiliaid neu amgylcheddau.
- Mae arolygwyr, offer a cherbydau yn gallu trosglwyddo'r clefyd yn anfwriadol.
- Mae bioddiogelwch annigonol yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol i iechyd anifeiliaid, busnesau fferm, a'r diwydiant amaethyddol ehangach.

Felly mae'n rhaid i fioddiogelwch fodloni'r canlynol:

- Bod yn seiliedig ar risg ac yn benodol i safle er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo.
- Adlewyrchu ystyriaethau tirfeddianwyr/tirddeiliaid, lle maen nhw'n hysbys, oni bai fod symud ymlaen drwy fynediad statudol a thrafod ymlaen llaw wedi bod yn aflwyddiannus. Gweler y gofynion hysbysu blaenorol ym Mhrotocol Mynediad Arolygu Green Gen Cymru.
- Bod ar waith bob amser, hyd yn oed os nad oes pridd na deunydd organig gweladwy.

## 2.0 Sut mae Clefyd yn Lledaenu (Llwybrau Trosglwyddo Allweddol)

Mae deall sut mae clefydau'n lledaenu yn llywio'r mesurau rheoli sydd eu hangen.

| Llwybr Trosglwyddo | Enghraifft | Mesurau Rheoli |
|---|---|---|
| Cyswllt uniongyrchol | Cyswllt â da byw neu ddillad sydd â phresenoldeb pathogenau hyfyw | Dillad glân (dim pridd na deunydd organig gweladwy), esgidiau wedi'u diheintio, hylendid cerbydau |
| Arwynebau / cyfarpar halogedig | Offer arolygu, esgidiau cryf, peiriannau | Glanhau a diheintio rhwng safleoedd ac o fewn safleoedd |
| Halogi dŵr neu fwyd anifeiliaid | Cyswllt â chafnau, silwair, mannau bwydo | Osgoi ardaloedd da byw risg uchel |

Mae enghreifftiau o glefydau da byw hysbysadwy ac endemig yn y DU yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- TB Buchol
- Ffliw Adar
- Clwy'r Traed a'r Genau
- Y Tafod Glas
- Clwy'r Moch
- Y Clafr

# 3.0 Gofynion ar gyfer Cyflenwyr (Arolygwyr a Chontractwyr)

## 3.1 Gofynion cyn Ymweld (Cynllunio a Diwydrwydd Dyladwy)

Rhaid i bob cyflenwr gynnal asesiad risg fesul achos cyn mynd i'r safle.

**Nodwch y canlynol yn yr asesiad risg:**

- Math o dda byw (os yw'n hysbys)
- Statws clefydau rhanbarthol ac ar y fferm
- Math o weithgarwch arolygu
- Lleoliad yr arolwg (meysydd neu ardaloedd risg uchel fel siediau)

**Rhaid i chi gymryd y camau canlynol:**

- Siarad â thirfeddianwyr/tirddeiliaid, lle bo hynny'n bosib. Edrychwch ar Brotocol Mynediad Arolygu Green Gen Cymru i gael rhagor o fanylion am drafod ymlaen llaw.
- Mae angen i chi gadarnhau'r canlynol:
    - Statws TB (edrychwch ar y map ibTB)
    - Unrhyw reolau bioddiogelwch sy'n benodol i'r fferm
    - Gofynion y cynllun gwarant fferm (os ydynt yn hysbys)
    - Parthau bioddiogelwch, mannau diheintio, neu gyfyngiadau (os yw'n bosib)
- Cynllunio llwybrau i osgoi ardaloedd risg uchel
- Cytuno ar leoliadau parcio (y tu allan i ffiniau'r fferm os oes modd)
- Defnyddio mynedfeydd dynodedig

## 3.2 Cyfarpar Gorfodol (Pob Ymweliad)

Rhaid i'r holl staff fod â'r canlynol:

- Dillad glân sy'n addas ar gyfer y tywydd
- Esgidiau sy'n dal dŵr
- Trowsus gwrth-ddŵr neu oferôls untro
- Diheintydd a photel chwistrellu (gwanhad cywir) **
- Weips diheintio (ar gyfer cyfarpar sensitif)
- Brwsh llaw (i gael gwared ar falurion)
- Taflenni COSHH ar gyfer pob sylwedd

**Ar ddiwrnod yr arolygon, gwnewch yn siŵr eich bod yn cario digon o ddiheintydd wedi'i wanhau ymlaen llaw gyda chi, neu ddiheintydd crynodedig, dŵr a jwg mesur,

# 4.0 Gofynion Bioddiogelwch ar y Safle

## 4.1 Dillad, Cyfarpar a Cherbydau

**Gofynion (Camau):**

- Gwisgo dillad glân heb unrhyw falurion arnynt
- Defnyddio esgidiau sydd wedi'u diheintio ac sy'n dal dŵr
- Glanhau a diheintio'r holl offer:
    - Rhwng safleoedd
    - Rhwng ardaloedd ar yr un safle (os oes angen)
- Sicrhau bod:
    - Teiars cerbydau wedi'u diheintio cyn ac ar ôl ymweliadau
    - Cerbydau'n cael eu parcio i ffwrdd o ardaloedd da byw oni bai y cytunir yn wahanol gyda'r tirfeddiannwr / tirddeiliad

## 4.2 Gweithdrefnau Diheintio

**Nodi (Beth i'w ystyried):**

- Statws clefyd fferm (e.e. cyfyngiadau TB a nodwyd naill ai drwy gyfathrebu â thirfeddianwyr neu fapio ibTB)
- Gofynion sy'n benodol i rywogaethau
- Ceisiadau tirfeddianwyr
- A oes da byw yn y cae lle cynhelir yr arolwg

**Camau:**

- Defnyddio diheintyddion wedi'u cymeradwyo gan DEFRA
- Defnyddio'r gwanhad cywir:

| Diheintydd | Defnydd Cyffredinol | Gorchmynion TB |
|---|---|---|
| FAM 30 | 49 | 14 |
| Virkon LSP | 30 | 10 |
| Agrichlor | 317*<br>(cyfradd Clefyd Pothellog y Moch) | 12* |
| * = Nifer y mililitrau o ddŵr i un gram o ddiheintydd<br>Mae'r holl gyfraddau cymeradwyo eraill wedi'u dangos fel nifer y mililitrau o ddŵr i'w hychwanegu at un rhan o ddiheintydd, lle mae un rhan o ddiheintydd = 1 mililitr | | |

- Tynnu unrhyw ddeunydd organig gweladwy cyn diheintio
- Defnyddio'r diheintydd a chaniatáu amser cyswllt cywir (yn unol â'r cyfarwyddiadau i'r defnyddiwr)
- Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wrth drin cemegion
- Cael gwared ar y diheintydd yn ddiogel (ddim i lawr y draen)
- Trowch at [Defra-approved disinfectants | Disinfectants approved for statutory notifiable animal disease control in GB] i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn diheintyddion sydd wedi'u cymeradwyo
- Os oes da byw yn y cae lle mae'r arolwg yn cael ei gynnal, gwisgwch oferôls untro neu drowsus gwrth-ddŵr

**Pwysig:**
Lle mae risg o TB yn hysbys neu'n aneglur, defnyddiwch gyfraddau gwanhau TB uwch

## 4.3 Yn Ystod Arolygon

**Nodi (Risgiau i gadw llygad amdanynt):**

- Anifeiliaid sâl neu farw
- Mannau risg uchel (e.e. siediau, systemau trin)
- Arwyddion neu gyfarwyddiadau bioddiogelwch
- Gweithgarwch da byw (e.e. wyna, godro, profi am TB)

**Camau:**

- Dilynwch holl reolau ac arwyddion y fferm
- Cadwch at lwybrau lle bo modd. Peidiwch â gwyro oddi wrth lwybrau oni bai fod cwmpas yr arolwg yn gofyn am hynny.
- Cadwch bellter oddi wrth dda byw ac osgowch gyswllt uniongyrchol lle bynnag y bo modd. Os ceir cyswllt uniongyrchol, bydd angen diheintio'r trowsus gwrth-ddŵr neu gael gwared ar yr oferôls cyn gadael y safle a rhwng gwahanol ardaloedd (os oes angen). Os ceir cyswllt â da byw uwchben eich canol, dylid tynnu unrhyw ddillad a ddaeth i gyswllt â'r da rhwng ymweliadau, ac ni ddylid eu gwisgo eto nes eu bod wedi cael eu glanhau'n iawn.
- Dylech osgoi'r canlynol:
    - Tai anifeiliaid (oni bai fod modd cyfiawnhau hyn at ddibenion yr arolwg a bod y tirfeddiannwr / tirddeiliad yn cael gwybod)
    - Storfeydd bwyd anifeiliaid ac ardaloedd slyri
    - Ardaloedd da byw â chlefyd arnynt
- Peidiwch â bwyta nac yfed wrth ymyl da byw

**Os bydd problem yn cael ei nodi:**

- Rhowch y gorau i weithio ar unwaith
- Rhowch wybod i'r tirfeddiannwr/tirddeiliad a thîm y prosiect am eich pryderon
- Diheintiwch y safle a gadael y safle

### 4.4 Camau ar ôl yr Ymweliad

Cyn gadael y safle:

- Diheintiwch y canlynol:
    - Esgidiau
    - Offer
    - Teiars cerbydau
    - Trowsus gwrth-ddŵr, neu bydd angen tynnu oferôls / dillad (os ceir cyswllt uniongyrchol â da byw)
- Cofnodwch y canlynol:
    - Ardaloedd yr ymwelwyd â nhw
    - Unrhyw risgiau neu ddigwyddiadau
- Adroddwch ar y canlynol:
    - Pryderon bioddiogelwch
    - Arsylwadau ar iechyd anifeiliaid

## 5.0 Cydymffurfio ac Adrodd

- Rhaid i'r holl gyflenwyr ddilyn y protocol hwn bob amser
- Rhoddir hyfforddiant a bydd archwiliadau dirybudd yn cael eu cynnal
- Dylid rhoi gwybod am bryderon i: **info@greengencymru.com**

Dylai hyn gynnwys:

- Manylion yr eiddo
- Disgrifiad o'r pryder
- Diffyg cydymffurfio a welwyd